

Sul y Cofio

Darllen: Mathew 5:9

Fyddwch chi'n ymuno â'r fintai wrth y gofeb ar Sul y Cofio? Neu ai gwell gennyhych wylio'r digwyddiad ar y teledu ar fore Sul neu weld petalau'r pabi coch yn disgyn yn araf o nenfwd Neuadd Albert y noson cynt. Dyna lle daw'r dorf ac aelodau'r lluoedd arfog at ei gilydd yn flynyddol i ddathlu, gyda gwasanaeth bach taclus ar y diwedd i gloi'r seremoni, a phawb yn sefyll yn ddistaw dan gwymp y petalau. A dyna ni am flwyddyn arall. Yn ôl â ni i'n hen ffyrdd. Yfory, byddwn yng ngyddfau ein gilydd eto. Yfory, bydd y gynnuau a'r bomiau'n saethu a diasbedain. Yfory, bydd pobl yn gyrff gelain ar strydoedd Syria, Irac a'r Dwyrain Canol. Yfory, yr un hen stori fydd hi.

Beth yw pwrpas y dathliadau blynyddol hyn? 'Mae'n gyfle,' fel y dywedodd un cyn-filwr wrthyf, 'i gofio'r hogiau gollodd eu bywydau, a dyma'n ffordd ni o ddangos hynny'. Ond mae'n rhaid codi cwestiwn. A oes angen yr holl orymdeithio a'r holl rwysg? Y lifrau milwrol a'r medalau? Ydi hyn ynddo'i hun yn dyrchafu a chlodfori rhyfel? Onid dangos edifeirwch a ddylem? Dweud ein bod yn difaru am i ni fetu dygymod â brawdgarwch a chariad ac am fod gwell gennym drais a lladd. Ai dyma'r ffordd i 'gofio' ar y Sul hwn? Pan oeddwn i'n ddisgybl yn yr ysgol uwchradd byddai meddyg lleol, oedd wedi ymddeol, yn dod i'r ysgol i werthu'r pabi coch. Byddai'n cael mynediad i bob dosbarth - ar wahân i un, sef dosbarth yr athro Saesneg. A'i reswm dros gau'r drws yn wyneb y meddyg oedd bod y pabi coch yn ei farn ef yn symbol oedd yn dyrchafu ac yn clodfori rhyfel.

'Gwyn eu byd y tangnefeddwyr,' meddai Iesu; hynny yw, y rhai hynny sy'n mynd o'u ffordd i greu tangnefedd. Nid sôn am y dyn sy'n dangnefeddus ei ysbryd, na'r dyn sy'n gwrthod cweryla a chreu helyntion y mae Iesu, ond am y dyn sy'n creu tangnefedd. Hawdd iawn yw siarad am heddwch, ond nid dyna'r dyn sydd ym meddwl Iesu. Hawdd iawn yw

trafod heddwch rhwng cenedloedd, ond anodd iawn yw gweithredu ar lefel cymdogaeth a chymdeithas. Dywedodd plismon ei fod wedi gwranddo ar bregeth ragorol ar ‘heddwch a thangnefedd’. Wrth iddo fynd o’r oedfa, daeth un o’r blaenoriaid ato am sgwrs. Ateb y blaenor i ddrygau’r gymdeithas oedd, ‘Wyddoch chi beth sydd angen ei wneud i’r drwgweithredwyr - torri eu dwylo. Wnawn nhw ddim drygioni wedyn!’ Ac yn ôl y plismon, nid cellwair oedd y blaenor! Syrthiodd pregeth y pregethwr y bore hwnnw ar dir caregog iawn! Mae’n rhaid i’r awydd am dangnefedd a heddwch godi o’n calonnau ni cyn y medrwn ddyheu am heddwch byd. Duw’r heddwch yw ein Duw ni, a ble bynnag y cydnabyddir ei lywodraeth bydd heddwch yn teyrnasu. Mae’n Dad i Dywysog Tangnefedd. Mae’n galw ar ei blant i fod yn wneuthurwyr tangnefedd, ‘oherwydd cânt hwy eu galw’n blant i Dduw’. Ymdebygu i Dduw yw nod y Cristion ym mhob oes. Onid hyn ddylen ni ei ddathlu ar Sul y Cofio?

Myfyrdod pellach:

Fyddwch chi’n ymuno wrth y gofeb ar Sul y Cofio? Os na fyddwch, pam?

Beth am fynd ati i lunio gwasanaeth arbennig ar gyfer Sul y Cofio.